PETER FOX OBE MS

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Senedd Cymru
Welsh Parliament

MEMBER OF THE SENEDD FOR MONMOUTH

Your voice in the Senedd



01291 674898

www.peterfox.uk

Peter.Fox@Senedd.Wales

Unit 5, Llanover Business Centre, Llanover, Abergavenny, NP7 9HA

This has been paid for by the Senedd Commission from Public Funds.

Comisiwm y Senedd sydd wedi talu am hyn o arian cyhoeddus.

STANDING UP FOR HEALTH

I'm sure we all know of the increasing pressures on our NHS across Wales, and throughout Monmouthshire and Torfaen.

Over 60% of my inbox is from constituents who have had a poor experience at A&E, or who are facing un-acceptable delays for treatment, often waiting 2 years or more for referrals and minor procedures.

In the Senedd, I have consistently raised constituent's concerns with the Welsh Government's Cabinet Secretary for Health and Social Care, highlighting a range of concerns. These include waiting times for operations, access to vaccinations, and the current state of our hospitals in South East Wales.

Behind every poor statistic that we read about, there is a person in need of medical help, waiting to be seen. I have nothing but respect for our incredible healthcare staff, and know they are doing everything they can under challenging circumstances, but the system needs to change.

I will continue to make the case for my constituents, highlighting their specific issues and challenging the Welsh Government in the Senedd.

YOUR VOICE FOR FARMING

I am incredibly proud of the work that our farmers do for us all, and the abundance of high-quality fresh food that they produce. We are so lucky to have all of this food on our doorstep.

Farmers are facing uncertain times, with the upcoming revised Sustainable Farming Scheme and the changes from Westminster to the Inheritance Tax Relief. I have always fought for Farmers, and will continue to do so in the Senedd to guarantee their futures.

Two years ago, I put forward a bill which had the aim of improving our food system, ensuring there was a strategy in place to improve access to nutritious and sustainable food. This was sadly voted down, but I will continue to fight for improvements to our food security.

WORKING FOR YOU IN THE SENEDD

I believe in empowering local people and I provide them with a voice in the Senedd. I put forward concerns and views, every week to Welsh Government, to support my constituents, and to support our local communities in delivering change.

- **Raglan A40 Junction** - This accident hotspot has seen too many incidents, and residents are quite rightly concerned about safety. I have repeatedly raised this with the Welsh Government, and have pushed for improvements to improve safety. I will not stop challenging this until we have the guarantees we need.

- **Flooding** - Storm Bert is just the latest storm to hit Wales hard, with the impact still being felt. The Emergency Services and Local Authority teams did an excellent job in supporting residents. I became aware of concerns from local businesses in my constituency, and quickly raised these with the Welsh Government, in addition to calling for an extension to rates relief. I will always champion Welsh businesses.

Every week, I contribute in the Senedd Chamber, putting forward the views and concerns of my residents, seeking action on local issues, and challenging the decisions of the Welsh Government.

I am fighting to support local projects, ensuring charities and organisations get the support and recognition they deserve.

Real change starts at a local level, and I will continue to play my part in this by supporting my residents in the Senedd.

CHAMPIONING OUR WATERWAYS

I firmly believe in the natural beauty of Monmouthshire and Torfaen. From the River Wye, to the Usk, to our picturesque hills and green fields, we must protect our natural beauty.

I will always continue to campaign to protect our landscape and waterways.

I have repeatedly raised concerns about our rivers with the Welsh Government. We must all work together to protect our waterways.

In addition to the wonderful Rivers that we have in South East Wales, we are also fortunate to have the Monmouthshire and Brecon Canal.

The Canal, which is reliant on water from the River Usk, has seen new conditions attached to their licences, posing a risk to the future of the canal.

I have raised this urgent concern quickly with the Welsh Government to seek a viable solution and to secure the future of this waterway.

TACKLING TRANSPORT

Championing Welsh Roads, Buses, Trains, Active Travel and Transport Policy

As the Shadow Cabinet Secretary for Infrastructure, Transport and Rural Affairs, I get the opportunity to challenge the Welsh Government on a number of high profile projects and policy areas.

I always take the chance to question or challenge the 'value for money' to Welsh tax payers on a number of projects and schemes, such as the Heads of the Valley Road and the default 20mph speed limit.

I have attended a visit with Network Rail to see the exciting new footbridge in Abergavenny, and I am looking forward to seeing this opened. I also met with Transport for Wales to see the future of their Metro and Tram-Trains, and to take the opportunity to discuss constituent's concerns on service levels.

We must always ensure that everything we do is in the best interests of our residents, and I will continue to hold the Welsh Government to account on any issues relating to transport.

WORKING TO REDUCE PRESSURE ON TAXPAYERS

Monmouthshire County Council has voted to increase council tax by 7.8% in 2025/26.

That is the 9th highest rise in WALES

Fighting for changes to the Council Funding Formula.

Residents in Monmouthshire and Torfaen have seen consistent rises in their council tax.

I have always been a firm believer that increasing council tax should be a last resort after all other avenues have been exhausted.

In England, councils are not able to increase council tax above 5% without it being subject to a local referendum, something I support.

I have called on the Welsh Government to implement this policy here in Wales, and I will continue to do so.

The current funding formula is not fit for purpose, and it needs to be reviewed. I will continue to support changes to this, and I will fight for my residents to make sure they get the best outcome.

Growth is not a policy; it is the result of good policy making.

Businesses in Wales are under huge pressure, and we need to ensure they are given the right conditions to thrive and grow.

We have seen un-employment in Wales recently increase to 5.6%, the highest rate in the UK.

I am fighting for businesses every day, to ensure they can succeed, and the Welsh economy grows.

‘OUT & ABOUT’ IN MONMOUTHSHIRE

Whilst the Senedd is located in Cardiff, I spend most of my time in Monmouthshire and Torfaen. Meeting residents, businesses and groups to discuss issues, concerns and to see exciting projects. I always take the opportunity to meet with my constituents.

LLANOVER VILLAGE: I have met with local residents in Llanover and other stakeholders on two occasions to discuss their concerns on road safety. I arranged a meeting with SWTRA to discuss what can be done to improve safety along the A4042 through the village.

KEEPERS POND: I met with several stakeholders in Blaenavon to discuss concerns relating to Keepers Pond. This is a major tourist attraction, and we must ensure it is protected. We had a constructive discussion on facilites, road safety, protection for livestock, and ensuring safeguards for biodiversity and the area’s Site of Special Scientific Interest status.

FARMING: I often meet with farmers to discuss a range of issues, but a visit to a farm near Tintern is still firmly at the forefront of my thoughts. I heard firsthand what the impact of the changes to inheritance tax will have on our rural communities. I was very grateful to meet with family members on this multi-generational farm in my constituency and to discuss their concerns.

PETER FOX OBE AS

AELOD O'R SENEDD DROS FYNWY

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eich llais yn y Senedd

01291 674898

www.peterfox.uk

Peter.Fox@Senedd.Wales

Unit 5, Llanover Business Centre, Llanover, Abergavenny, NP7 9HA

This has been paid for by the Senedd Commission from Public Funds.

Comisiwm y Senedd sydd wedi talu am hyn o arian cyhoeddus.

SEFYLL DROS IECHYD

Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn gwybod am y pwysau cynyddol ar y GIG ledled Cymru, a ledled Sir Fynwy a Thorfaen.

Mae dros 60% o'r negeseuon yn fy mewnflwch yn dod gan etholwyr sydd wedi cael profiad gwael mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, neu sy'n wynebu oedi annerbyniol ar gyfer triniaeth, yn aml yn aros 2 flynedd neu fwy am atgyfeiriadau a mân driniaethau.

Yn y Senedd, rwyf wedi codi pryderon etholwyr yn gyson gydag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan dynnu sylw at ystod o bryderon. Mae'r rhain yn cynnwys amseroedd aros ar gyfer llawdriniaethau, mynediad at frechiadau, a chyflwr presennol ein hysbytai yn ne-ddwyrain Cymru.

Y tu ôl i bob ystadegyn gwael rydyn ni'n darllen amdano, mae person sydd angen cymorth meddygol, yn aros i gael ei weld. Mae gennyf gymaint o barch at ein staff gofal iechyd anhygoel, ac rwy'n gwybod eu bod yn gwneud popeth y gallant o dan amgylchiadau heriol, ond mae angen i'r system newid.

Byddaf yn parhau i ddadlau'r achos dros fy etholwyr, gan dynnu sylw at eu problemau penodol a herio Llywodraeth Cymru yn y Senedd.

EICH LLAIS DROS FFERMIO

Rwy'n hynod falch o'r gwaith y mae ein ffermwyr yn ei wneud i ni i gyd, a'r digonedd o fwyd ffres o ansawdd uchel maen nhw'n ei gynhyrchu. Rydyn ni mor lwcus i gael yr holl fwyd hwn ar garreg y drws.

Mae hi'n adeg ansicr i ffermwyr, gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy diwygiedig sydd ar ddod a'r newidiadau o San Steffan i'r Rhyddhad Treth Etifeddiant. Rwyf bob amser wedi brwydro dros Ffermwyr, a byddaf yn parhau i wneud hynny yn y Senedd i warantu eu dyfodol.

Ddwy flynedd yn ôl, cyflwynais fil er mwyn gwella ein system fwyd, gan sicrhau bod strategaeth ar waith i wella mynediad at fwyd maethlon a chynaliadwy. Yn anffodus, pleidleisiwyd yn ei erbyn, ond byddaf yn parhau i frwydro dros welliannau i ddiogeledd bwyd.

GWEITHIO DROSOCH YN Y SENEDD

Rwy'n credu mewn grymuso pobl leol ac rwy'n rhoi llais iddynt yn y Senedd. Rwy'n cyflwyno pryderon a safbwyntiau i Lywodraeth Cymru bob wythnos er mwyn rhoi cefnogaeth i fy etholwyr a chefnogi ein cymunedau lleol i gyflawni newid.

- **Cyffordd yr A40 Rhaglan – Mae'r man problemus hwn o ran damweiniau wedi gweld gormod o ddigwyddiadau, ac mae'r trigolion yn iawn i bryderu am ddiogelwch. Rwyf wedi codi hyn dro ar ôl tro gyda Llywodraeth Cymru, ac wedi galw am welliannau i wella diogelwch. Ni fyddaf yn rhoi'r gorau i herio hyn nes ein bod yn cael y gwarantau sydd eu hangen arnom.**

- **Llifogydd - Storm Bert yw'r storm ddiweddaraf i daro Cymru yn galed, ac mae ei heffaith yn parhau i gael ei theimlo. Gwnaeth y timau Gwasanaethau Brys ac Awdurdodau Lleol waith ardderchog wrth gefnogi preswylwyr. Deuthum yn ymwybodol o bryderon gan fusnesau lleol yn fy etholaeth, a chodais y rhain yn gyflym gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â galw am estyniad i ryddhad ardrethi. Byddaf bob amser yn hyrwyddo busnesau Cymru.**

Bob wythnos, rwy'n cyfrannu yn Siambr y Senedd, gan gyflwyno barn a phryderon fy nhrigolion, ceisio sicrhau camau gweithredu ar faterion lleol a herio penderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Rwy'n brwydro i gefnogi prosiectau lleol, gan sicrhau bod elusennau a sefydliadau yn cael y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth maen nhw'n ei haeddu.

Mae newid go iawn yn dechrau ar lefel leol, a byddaf yn parhau i chwarae fy rhan yn hyn o beth trwy gefnogi fy nhrigolion yn y Senedd.

HYRWYDDO EIN DYFRFFYRDD

Rwy'n credu'n gryf yn harddwch naturiol Sir Fynwy a Thorfaen. O Afon Gwy, i Afon Wysg, i'n bryniau hardd a'n caeau gwyrdd, mae'n rhaid i ni amddiffyn ein harddwch naturiol.

Byddaf bob amser yn parhau i ymgyrchu i amddiffyn ein tirwedd a'n dyfrffyrdd.

Rwyf wedi codi pryderon dro ar ôl tro ynglŷn â'n hafonydd gyda Llywodraeth Cymru. Rhaid i bawb weithio gyda'n gilydd i amddiffyn ein dyfrffyrdd.

Yn ogystal â'r afonydd gwych sydd gennym yn ne-ddwyrain Cymru, rydym hefyd yn ffodus i gael Camlas Mynwy ac Aberhonddu.

Mae'r Gamlas, sy'n dibynnu ar ddŵr o Afon Wysg, wedi gweld amodau newydd ynghlwm wrth eu trwyddedau, sy'n peri perygl i ddyfodol y gamlas.

Rwyf wedi codi'r pryder brys hwn yn gyflym gyda Llywodraeth Cymru i geisio dod o hyd i ddatrysiad hyfyw ac i sicrhau dyfodol y ddyfrffordd hon.

MYND I'R AFAEL Â THRAFNIDIAETH

Hyrwyddo Polisi Ffyrdd, Bysiau, Trenau, Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Cymru

Fel Ysgrifennydd Cabinet yr Wrthblaid i'r Ceidwadwyr Cymreig dros Seilwaith, Trafnidiaeth a Materion Gwledig, rwy'n cael y cyfle i herio Llywodraeth Cymru ar nifer o brosiectau a meysydd polisi proffil uchel.

Rwyf bob amser yn manteisio ar y cyfle i gwestiynu neu herio'r 'gwerth am arian' i drethdalwyr Cymru ar nifer o brosiectau a chynlluniau, megis Ffordd Blaenau'r Cymoedd a'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya.

Rwyf wedi bod ar ymweliad gyda Network Rail i weld y bont droed newydd gyffrous yn y Fenni, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y bont yn cael ei hagor. Cyfarfûm hefyd â Thrafnidiaeth Cymru i weld dyfodol eu Metro a'u Trenau Tram, ac i fanteisio ar y cyfle i drafod pryderon etholwyr am lefelau gwasanaeth.

Mae'n rhaid i ni bob amser sicrhau bod popeth a wnawn er budd ein trigolion, a byddaf yn parhau i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

GWEITHIO I LEIHAU'R PWYSAU AR DRETHDALWYR

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi pleidleisio i gynyddu'r dreth gyngor 7.8% yn 2025/26

Dyna'r 9fed cynnydd uchaf yng NGHYMRU.

Brwydro dros newidiadau i Fformiwla Ariannu Cynghorau.

Mae trigolion yn Sir Fynwy a Thorfaen wedi gweld cynnydd cyson yn eu treth gyngor.

Rwyf bob amser wedi credu'n gryf y dylai cynyddu'r dreth gyngor fod yn ddewis olaf ar ôl ystyried pob dewis arall.

Yn Lloegr, nid yw cynghorau yn gallu cynyddu'r dreth gyngor dros 5% heb i hynny fod yn destun refferendwm lleol, ac mae hyn yn rhywbeth rwy'n ei gefnogi.

Rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r polisi hwn ar waith yma yng Nghymru, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Nid yw'r fformiwla ariannu presennol yn addas i'r diben, ac mae angen ei adolygu. Byddaf yn parhau i gefnogi newidiadau i hyn, ac yn brwydro dros fy mhreswylwyr i wneud yn siŵr eu bod yn cael y canlyniad gorau.

Nid polisi yw twf; mae'n dod fel canlyniad pan gaiff polisïau da eu llunio.

Mae busnesau yng Nghymru dan bwysau enfawr, ac mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael yr amodau cywir i ffynnu a thyfu.

Rydym wedi gweld diweithdra yng Nghymru yn cynyddu yn ddiweddar i 5.6%, y gyfradd uchaf yn y DU.

Rwy'n brwydro dros fusnesau bob dydd, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu llwyddo, a bod economi Cymru yn tyfu.

‘FY NGWAITH YN SIR FYNWY’

Er bod y Senedd wedi’i lleoli yng Nghaerdydd, rwy’n treulio’r rhan fwyaf o’m hamser yn Sir Fynwy a Thorfaen. Rwy’n cwrdd â thrigolion, busnesau a grwpiau i drafod materion, pryderon ac i weld prosiectau cyffrous. Rwyf bob amser yn manteisio ar y cyfle i gwrdd â’m hetholwyr.

PENTREF LLANOFER: Rwyf wedi cwrdd â thrigolion lleol yn Llanofer a rhanddeiliaid eraill ar ddau achlysur i drafod eu pryderon am ddiogelwch ar y ffyrdd. Trefnais gyfarfod gyda SWTRA i drafod beth y gellir ei wneud i wella diogelwch ar hyd yr A4042 drwy’r pentref.

PWLL Y CEIDWAD: Cyfarfûm â nifer o randdeiliaid ym Mlaenafon i drafod pryderon yn ymwneud â Phwll y Ceidwad. Mae hwn yn atyniad mawr i dwristiaid, ac mae’n rhaid i ni sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu. Cawsom drafodaeth adeiladol ar gyfleusterau, diogelwch ar y ffyrdd, diogelu da byw, a sicrhau diogelwch ar gyfer bioamrywiaeth a statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yr ardal.

FFERMIO: Rwy’n aml yn cwrdd â ffermwyr i drafod ystod o faterion, ond mae ymweliad â fferm ger Tyndyrn wedi aros yn y cof. Clywais yn uniongyrchol sut y bydd newidiadau i’r dreth etifeddiant yn effeithio ar ein cymunedau gwledig. Roeddwn i’n ddiolchgar iawn am y cyfle i gwrdd ag aelodau o’r teulu ar y fferm aml-genhedlaeth hon yn fy etholaeth ac i drafod eu pryderon.